**CAU MEDDYGFA FFORDD ASHFIELD, CANGEN TRECELYN**
CWESTIYNAU A OFYNNIR YN AML

**C1 Beth mae cau'r feddygfa gangen yn ei olygu i mi a/neu fy nheulu?**

A1 Pan fydd safle'r gangen yn cau, bydd yr holl gleifion presennol yn parhau wedi'u cofrestru gyda Phractis Gogledd Celynen, Crymlyn. Mae hyn yn golygu o 1 Rhagfyr 2025, **y byddwch yn cael mynediad at eich holl anghenion gofal iechyd o Stryd y Goron, Crymlyn, Casnewydd NP11 4PQ.** Mae'r practis yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu Gwasanaethau Gofal Iechyd i'w holl gleifion cofrestredig o safle Crymlyn.

**C2 Gall fod yn anodd cael apwyntiad; a fydd hyn yn cael ei effeithio ymhellach gyda chleifion Trecelyn yn gorfod mynychu Crymlyn?**

A2 Nid yw'r practis yn lleihau nifer yr apwyntiadau sydd ar gael i gleifion nac yn lleihau eu lefelau staffio. Bydd yr holl staff ac apwyntiadau o gangen Trecelyn yn cael eu trosglwyddo i gynyddu nifer yr apwyntiadau sydd ar gael ar safle practis Crymlyn. Mae'r practis yn rhagweld y bydd cael yr un adnoddau, ond dros lai o safleoedd, yn caniatáu iddynt reoli galwadau cleifion yn fwy effeithlon a diogel. Mae gan y prif safle ystafelloedd ymgynghori digonol i reoli'r cynnydd mewn apwyntiadau sy'n cael eu cyflwyno.

**C3 A fyddaf yn dal i allu gweld fy Meddyg Teulu arferol neu Weithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol arall ar y prif safle yng Nghrymlyn?**

A3 Bydd yr holl staff practis, clinigwyr a staff gweinyddol/derbynfa yn dal i fod ar gael i chi ymgynghori /siarad â nhw o'r safle yng Nghrymlyn yn amodol ar eu hargaeledd dyddiol.

**C4 Ni fydd yn hawdd i mi ollwng fy nghais presgripsiwn amlroddadwy misol i safle Crymlyn.**

A4 Mae nifer o opsiynau ar gael i chi archebu presgripsiynau amlroddadwy, gan gynnwys trefniadau eisoes ar waith i ganiatáu i bob claf archebu presgripsiynau amlroddadwy drwy ap GIG Cymru. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr opsiynau hyn, cysylltwch â'ch practis i gael rhagor o gymorth a chyngor.

**C5 A fydd mwy o feddygon a nyrsys ar gael yng Nghrymlyn?**

A5 Bydd, bydd y staff clinigol o safle cangen Trecelyn yn trosglwyddo i safle Crymlyn. Bydd darparu gofal o un safle yn unig yn cynorthwyo'r

practis i gael ystod ehangach o arbenigedd clinigol o dan yr un to, gan wella gofal a diogelwch cleifion a darparu gofal parhaus gwell i gleifion.

**C6 Mae gen i broblemau symudedd a/neu broblemau trafnidiaeth sy'n gwneud mynychu'r safle yng Nghrymlyn yn anodd, beth yw fy opsiynau?**

A6 Yn dilyn y cyfnod ymgysylltu diweddar lle gallai pobl roi adborth am y cau arfaethedig, mae'r practis yn deall y gallai nifer fach o gleifion gael anawsterau teithio i safle Crymlyn. Byddant yn ceisio darparu ar gyfer cleifion trwy gynnig ystod o ymgynghoriadau gan gynnwys ymgynghoriadau ffôn, ond bydd achlysuron lle mae angen apwyntiad wyneb yn wyneb. Mae yna gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ardderchog, gyda phedwar gwasanaeth bws yr awr yn rhedeg rhwng Trecelyn a Chrymlyn. Yn ogystal, gall Cymdeithasau Trafnidiaeth Gymunedol eich helpu i ddod o hyd i ddarparwyr trafnidiaeth gymunedol neu wirfoddol yn eich sir. Rhif ffôn cyswllt y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol yng Ngwent yw: 01792 844 290.

Yn ogystal, bydd y practis yn parhau i ymgymryd ag ymweliadau cartref â chleifion cofrestredig lle bo'n glinigol briodol, waeth ble maen nhw'n byw.

**C7 Sut ydw i'n cofrestru gyda darparwr amgen os byddaf yn dewis?**

A7 Gallwch gysylltu â'r practis o'ch dewis yn uniongyrchol a gofyn am gofrestru gyda nhw, a byddant yn gallu eich cynorthwyo drwy'r broses gofrestru. Fel arall, gall aelod o'r Tîm Gofal Sylfaenol eich cynorthwyo gyda hyn, os yw'n well gennych, drwy ffonio 01495 241254 neu 241258.

**C8 Pam na all pethau aros yr un fath, rydw i wedi bod yn mynychu Meddygfa Cangen Trecelyn, Ffordd Ashfield ers blynyddoedd lawer?**

A8 Mae'r cytundeb prydles presennol ar gyfer adeilad Ffordd Ashfield, Trecelyn yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2025. Nid yw'r gangen yn cael ei defnyddio i lefel lle byddai adnewyddu'r brydles yn hyfyw. Mae'r practis hefyd yn teimlo y bydd yr adnoddau a arbedwyd trwy gau safle Ffordd Ashfield, Trecelyn yn caniatáu iddynt fuddsoddi ymhellach mewn datblygu gwasanaethau cleifion.

**C9 A allaf wneud unrhyw beth i helpu?**

A9 Cyngor cyffredinol i unrhyw un sy'n ystyried gwneud apwyntiad gyda'r practis fyddai ystyried:

- A oes angen i mi weld meddyg, neu a allaf ofyn am aelod gwahanol o'r tîm gofal iechyd, e.e. nyrs practis, uwch ymarferydd, fferyllydd practis, ac ati?
- A allaf ymweld â fferyllfa gymunedol yn hytrach na'r practis?
- Oeddech chi'n gwybod am y Cynllun Anhwylderau Cyffredin Fferylliaeth Gymunedol?

Mae'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin fferyllfa gymunedol yn gynllun ar gyfer cleifion sy'n gallu ymgynghori â fferyllfa gymunedol sy'n cymryd rhan, yn hytrach na'u Meddyg Teulu, am **restr ddiffiniedig** o anhwylderau cyffredin nad oes angen iddynt gael eu gweld gan nyrs neu feddyg. Bydd y fferyllydd yn cyflenwi meddyginiaeth o fformiwla y cytunwyd arno, yn rhoi cyngor neu'n cyfeirio'r claf at y Meddyg Teulu os oes angen. **Mae meddyginiaethau yn cael eu cyflenwi am ddim.**